




Gwyddoniaeth Pysgodfeydd a Chadwraeth

## DIWEDDARIAD GWYDDONOL

# Astudiaeth drws dianc Cimychiaid, Bae Ceredigion: Rhagfyr 2014

Julia Pantin



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

*Ysgol Gwyddorau Eigion, Coleg y Gwyddorau Naturiol, Prifysgol Bangor*

Funded by:



Y Gronfa Pysgodfeydd Ewropeaidd:  
Buddsoddi mewn Pysgodfeydd Cynaliadwy  
European Fisheries Fund:  
Investing in Sustainable Fisheries




Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Canlyniadau rhagarweiniol

Mae casgliad data wedi'i gwblhau ar gyfer un pysgotwr sydd yn yr astudiaeth ac yn mynd rhagddo gyda physgotwyr eraill. Cyflwynwyd y canlyniadau o 144 o gewyll wedi'u codi (48 heb ddrws dianc, 48 â drws dianc bach, a 48 â drws dianc mawr). Roedd y drysau dianc bach yn mesur 80 x 45mm a'r drysau dianc mawr yn mesur 80 x 47mm. Dewiswyd y maint bach er mwyn dal gafael ar y cimychiaid 87mm a dewiswyd y maint mawr i ddal gafael yn y cimychiaid 90mm.

### Cimychiaid a Chrancod coch a gadwyd ac a daflwyd

Recordiwyd y nifer o gimychiaid gadwyd ( $\geq 87\text{mm}$ ) ac a daflwyd ( $< 87\text{mm}$ ) a'r nifer o grancod coch a gadwyd ( $\geq 130\text{mm}$ ) ac a daflwyd ( $< 130\text{mm}$ ) o'r 144 o gewyll a godwyd. Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng nifer y cimychiaid a gadwyd o'r cewyll heb ddrws dianc a'r rhai â drws dianc bach. Fodd bynnag roedd nifer arwyddocaol yn llai o gimychiaid wedi eu cadw o'r cewyll gyda drysau dianc mawr. Taflwyd nifer arwyddocaol yn fwy o gimychiaid o'r cewyll heb ddrws dianc na'r cewyll oedd â drws dianc. O'r crancod coch, roedd nifer arwyddocaol llai o grancod wedi eu cadw o'r cewyll heb ddrws dianc o'i gymharu â'r cewyll gyda drws dianc mawr, ac roedd nifer arwyddocaol o grancod wedi eu taflu o'r cewyll heb ddrws dianc nag yn y cewyll gyda drws dianc.




**Ffigur 1: Cymedr cyflenwad fesul cawell o gimychiaid a chrancod coch a gadwyd ac a daflwyd o'r 144 o gewyll gyda thri math o ddrysau dianc ym Mae Ceredigion.**

### Sgil ddaliad

Recordiwyd y sgil ddaliad o'r holl gewyll a godwyd. Mae dadansoddiad pellach yn parhau gyda'r data hwn, ond mae'r arsylwadau cyntaf yn awgrymu mwy o gyflenwad o grancod llygatgoch mewn cewyll heb ddrws dianc. Dyma un o'r dadleuon yn erbyn drysau dianc. Mae hyn i'w briodoli i bysgotwyr Bae Ceredigion (a rhannau eraill o Gymru) yn dal crancod llygatgoch yn arbennig yn ystod misoedd y gaeaf pan fo daliadau cimychiaid yn is. Cynhelir dadansoddiad economaidd i benderfynu maint y golled incwm posibl.


## Diweddariad Gwyddonol Pysgodfeydd a Chadwraeth Prifysgol Bangor



**Ffigwr 2:** Cymedr cyflenwad fesul cawell o rywogaeth sgil ddaliadau o 144 o gewyll gyda thri math o ddrwsau dianc ym Mae Ceredigion

### Amser i Ddidoli

Dadansoddwyd yr amser a gymerwyd i ddidoli pob cawell (tynnu pob rhywogaeth o'r cawell ac wedyn ail osod abwyd) i ganfod a fyddai unrhyw amser yn cael ei arbed drwy ddefnyddio cewyll gyda drysau dianc. Mae'r canlyniadau'n dangos fod gwahaniaeth arwyddocaol mewn amser didoli rhwng y cewyll heb ddrws dianc a'r cewyll gyda drws dianc. Roedd yn cymryd 1.3 gwaith yn hwy i ddidoli cewyll heb ddrws dianc. Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng amser didoli'r cewyll â drysau dianc bach a mawr. Cynhelir dadansoddiad pellach i oblygiadau'r canlyniad hwn.



**Ffigwr 3: Amser didoli pysgotwr fesul cawell (mewn eiliadau) i 144 cewyll gyda thri math o ddrysau dianc ym Mae Ceredigion.**